**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol HSS-10-99(p.4)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher, 10 Tachwedd 1999 |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Teitl:** | Blaenraglen waith |

**Diben**

1. Gwahoddir y Pwyllgor i gytuno ar y flaen-raglen waith ddrafft sydd wedi ei hamgáu.

**Amseru**

2. Mae angen i’r Pwyllgor gytuno ar ei raglen cyn gynted ag y bo modd, gan y bwriedir i’r Aelodau drafod yr holl raglenni mewn Cyfarfod Llawn cyn toriad y Nadolig.

**Cefndir**

3. Mae’r rhaglenni drafft cynharach wedi cael eu diwygio a’u diweddaru. Trafodwyd hyn yng nghyfarfod llefarwyr y pedair plaid ar y Pwyllgor ar 20 Hydref, a chytunwyd ar y newidiadau sydd wedi’u hymgorffori yn y ddogfen.

**Pwyntiau i’w nodi**

4. Cynhelir cyfarfod ychwanegol brynhawn Dydd Iau 18 Tachwedd. Efallai y bydd cyfle i gynnal cyfarfodydd / ymweliadau / cyfarfodydd briffio ychwanegol yn y Flwyddyn Newydd.

5. Mae gormod o eitemau i’w cynnwys yn yr agendâu. Nid yw’r eitemau a restrir ar ddiwedd y rhaglen wedi’u cynnwys mewn cyfarfod penodol. Nid oes darpariaeth ar gyfer trafod is-ddeddfwriaeth.

6. Bydd y pwyllgor yn dymuno neilltuo digon o amser ac ystyriaeth i’r materion pwysicaf. Bydd y Cadeirydd yn penderfynu ar agendâu’r cyfarfodydd unigol ar ôl ymgynghori â’r Ysgrifennydd Cynulliad a’r ddau lefarydd arall. Bydd hefyd yn ystyried y potensial sydd i’r pwyllgor ddylanwadu a chyfrannu at ddatblygu polisi; yr angen i’r Pwyllgor gael eu briffio a derbyn gwybodaeth yn y pwyllgor; ac a ellir ymdrin â rhai eitemau y tu allan i’r Pwyllgor, trwy gyfrwng papurau neu drwy fodd arall. Mae’n anorfod y bydd yn rhaid gwrthod rhai eitemau, neu eu gohirio.

7. Ar 16 Medi trafodwyd y cynigion i gael comisiynydd plant annibynnol. Cytunwyd ei bod yn bwysig i’r pwyllgor siarad â’r cyhoedd ac y dylai’r aelodau gyfarfod â phobl yn eu hetholaethau. Dywedodd y cadeirydd y byddai’n ystyried sut y gellid gweithredu hyn. Wrth ystyried y pwysau ar amserlen y

Pwyllgor mae’r Cadeirydd wedi penderfynu na all y Pwyllgor wneud hyn mewn modd wedi’i drefnu’n ffurfiol. Felly, mae Kirsty Williams yn awgrymu bod yr aelodau sy’n teimlo y gallai pobl yn eu hetholaethau hwy gyfrannu at y ddadl, yn gwneud trefniadau eu hunain i gyfarfod â’r unigolion neu’r sefydliadau. Yna gallent adrodd yn ôl i’r Pwyllgor. Eisoes gwahoddwyd un neu ddau o’r aelodau i wneud hyn.

**Gwahoddir yr Aelodau i**

i. gytuno ar y flaen-raglen waith amgaeedig;
ii. nodi’r cynigion i gynnal rhagor o gyfarfodydd neu ddigwyddiadau eraill; a
iii. cytuno â’r awgrym eu bod yn ymgymryd â gwaith yn eu hetholaethau ar y cynigion i gael comisiynydd plant.

Jane Westlake
Clerc y Pwyllgor

**PWYLLGOR IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**
**Drafft o'r Flaen-raglen waith – Tachwedd 1999 hyd Gorffennaf 2000**

| **Dyddiad** | **Testun** | **Amser (mun)** | **Sylw** |
|---|---|---|---|
| **10.11.99** | Adroddiad dros dro ar afiechydon heintus | 30 | |
| | Mileniwm - cydymffurfedd TG a darpariaethau'r gwasanaeth dros wyliau'r Flwyddyn Newydd | 50 | |
| | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | 60 | |
| | Blaen-raglen waith | 20 | |
| | cofnodion | 5 | |
| | | | |
| **18.11.99** | **Cyfarfod ychwanegol posibl - 1.30pm hyd 4.45pm** | | |
| | Codau Ymarfer diwygiedig ar Ddiogelwch Bwyd | 30 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Cynllun Datblygu Cynaliadwy | 15 | |
| | Cyflwyniad gan Sefydliad Cenedlaethol Rhagoriaeth Clinigol | 60 | |
| | cofnodion | 5 | |
| | Clymblaid Pobl Anabl Caerdydd a'r Fro - cyflwyniad ar daliadau uniongyrchol a chynllun byw'n annibynnol | 30 | . |
| | Cig Eidion ar yr Asgwrn | 40 | |
| | | | |
| **24.11.99** | Adroddiad misol Ysgrifennydd y Cynulliad | 15 | |
| | Strategaeth Iechyd Rhywiol | 45 | |
| | Strategaeth Genedlaethol i Ofalwyr | 55 | |
| | Ymgynghoriad dros dro Ysgrifennydd y Cynulliad ar y gyllideb ddrafft | 60 | ***Mae'n rhaid trafod yr eitem hon ar y dyddiad hwn*** |
| | cofnodion | 5 | |
| | | | - |
| **8.12.99** | Adroddiad y Prif Swyddog Meddygol | 45 | **Mae'n rhaid trafod yr eitem hon ar y dyddiad hwn** |
| | Ymgynghori ar fanylion y dyraniad cyllideb | 45 | **Mae'n rhaid trafod yr eitem hon ar y dyddiad hwn** |
| | Comisiynydd Plant Annibynnol i Gymru - cyflwyniad gan Blant yng Nghymru | 45 | *Dyddiad derbyniol gan Blant yng Nghymru* - ni allant ddod cyn hyn |
| | cofnodion | 5 | |
| | Materion y Pwyllgor IaGC ar raglen Ddeddfwriaeth y Llywodraeth | 40 | Cyfle cyntaf i'w drafod yn dilyn trafodaeth mewn cyfarfod llawn – *dyddiad heb ei bennu hyd yma*. |
| | Rhaglenni Gwella Iechyd - cyfarwyddyd | 30 | *A oes gofyn i'r pwyllgor drafod hwn, neu a yw'n destun gwybodaeth yn unig?* |
| | | | |
| **19.01.00** | Adroddiad misol Ysgrifennydd y Cynulliad | 15 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Gwasanaethau Cymdeithasol | 30 | **Mae'n rhaid trafod yr eitem hon ar y dyddiad hwn** |
| | Ymateb i'r Comisiwn Brenhinol ar Ofal Tymor Hir i'r Henoed | 30 | |
| | Strategaeth Hybu Iechyd | 60 | |
| | Gweithgor Dyrannu Adnoddau | 45 | |
| | Cofnodion | 5 | |
| | | | |
| **Mae'n bosibl cael cyfarfod ychwanegol, neu ymweliad neu Sesiwn Briffio ar ddydd Iau 27 Ionawr** Agenda dros dro: | | | |
| **27.01.00 (pm)** | Strategaeth Iechyd Meddwl Oedolion / Strategaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc | 120 | |
| | Comisiwn Gwella Iechyd | 60 | |
| | | | |
| **02.02.00** | Comisiynydd Plant Annibynnol i Gymru - ymateb i'r ymgynghori a chynigion ar gyfer derbyn cyflwyniadau llafar | 30 | |
| | Strategaeth Iechyd Meddwl Oedolion / Strategaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc | 85 | |
| | Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol - Rhaglenni Archwilio a Datblygu | 30 | |
| | Adroddiad ar Afiechydon Heintus | 30 | |
| | Cyllideb gyffredin a hyblygrwydd - newyddion diweddaraf ar y cyfarwyddyd | 30 | Ni ellir ei ohirio - angen is-ddeddfwriaeth |
| | Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - Cyfarwyddyd Blaenoriaethau ar y cyd | 30 | Ystyried cyfarwyddyd drafft cyn ymgynghori |
| | Cofnodion | 5 | |
| | Strategaeth Adnoddau Dynol | | |
| | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **16.02.00** | Adroddiad misol Ysgrifennydd y Cynulliad | 15 | |
| | Mynediad at Wasanaethau Deintyddol yr NHS / Iechyd y Geg | 45 | |
| | Cynlluniau Gwasanaeth Plant | 40 | |
| | Adroddiad ar Ymchwiliad Cam-drin Plant Gogledd Cymru | 60 | Dros dro - dibynnu ar ddyddiad cyhoeddi |
| | Cofnodion | 5 | |
| | | | |
| **Dydd Iau 2 Mawrth (pm) - posibilrwydd am gyfarfod/ymweliad/sesiwn briffio ychwanegol Agenda i'w phennu (*gweler y troednodyn*)** | | | |
| **08.03.00** | Comisiynydd Plant Annibynnol i Gymru - cyflwyniadau llafar | 90 | |
| | Adroddiad Deddf Plant | 30 | |
| | Cynigion ar gyfer yr Asiantaeth Safonau Bwyd | 45 | |
| | Cofnodion | 5 | |
| | | | |
| **22.03.00** | Adroddiad misol Ysgrifennydd y Cynulliad | 15 | |
| | Comisiynydd Plant Annibynnol i Gymru - cyflwyniadau llafar | 90 | |
| | Cyflwyniad gan Uned Cydraddoldeb Cymru | 40 | (Mae'r Uned wedi gofyn am gyfarfod â'r Pwyllgor - ond gellid gwneud hyn ar ddydd Iau ychwanegol) |
| | Cofnodion | 5 | |
| | | | |
| **Dydd Iau 30 Mawrth (pm) - posibilrwydd am gyfarfod/ymweliad/sesiwn briffio ychwanegol Agenda i'w phennu (*gweler y troednodyn*)** | | | |
| **05.04.00** | Adroddiad Blynyddol ar Ddieithrwch Cymdeithasol | 90 | Wedi'i ddileu gan na fydd yr adroddiad ar gael erbyn y dyddiad hwnnw |
| | Strategaeth Gyffuriau | 60 | |
| | Drafft o'r Strategaeth Plant | 45 | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Gorchymyn Drafft ar hyblygrwydd rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd | 15 | |
| | Cofnodion | 5 | |
| | | | |
| **Y dyddiadau isod yn amodol ar gadarnhau dyddiadau toriad y Pasg.** | | | |
| **10.05.00** | Adroddiad misol Ysgrifennydd y Cynulliad | 15 | |
| | Adroddiad ar Adolygiad Gwasanaethau Byr-dymor | 60 | |
| | Strategaeth Adnoddau Dynol | 60 | |
| | Adroddiad Drafft ar Gomisiynnydd Plant Annibynnol | 30 | |
| | Cyfarwyddyd Blaenoriaethau ar y cyd - canlyniadau Ymgynghori | 15 | |
| | Cofnodion | 5 | |

**EITEMAU ERAILL I'W HAMSERLENNU:**

- Is-ddeddfwriaeth
- Cyflwyniad gan Grwpiau Iechyd Lleol
- Comisiwn Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru
- Gwasanaethau i oedolion hawdd eu niweidio
- Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Dethol Cymreig ar Ofal Plant
- Cydweithio posibl â'r Pwyllgor Materion Cymreig ar Ddieithrwch Cymdeithasol
- Y diweddaraf ar y Strategaeth Gorfforaethol
- Adroddiad ar gynnydd y Strategaeth Rhestrau Aros
- Gwasanaethau Cardiaidd Pediatrig, UHW (*yn gynnar yn y flwyddyn newydd?*)
- Gwasanaethau Cancr
- Health Solutions Wales - Sesiwn briffio / cyflwyniad
- Ymweliad â Chanolfan Telefeddygaeth Cymru, Arena Rhyngwladol Caerdydd

***Dyddiadau posibl ar gyfer tymor yr haf:*** 24 Mai; 14 Mehefin; 28 Mehefin; 12 Gorffennaf